AM DDIM

Menter Moch Cymru

Developing the pig sector in Wales
Datblygu'r sector moch yng Nghymru

Cyfres o Ddigwyddiadau DDP

Yn Ymwneud a Milfeddygaeth Moch ar Gyfer Milfeddygon yng Nghymru

Mae Menter Moch Cymru, Canolfan Milfeddygaeth Cymru, Iechyd Da a Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid wedi llunio rhaglen o hyfforddiant DPP Moch i filfeddygon Cymru i'w darparu dros Zoom sy'n dechrau yn ddiweddarach y mis yma.

Mae saith modiwl rhyngweithiol wedi'u cynllunio gyda phob un yn cael ei ddarparu gan y milfeddyg moch arbenigol Dr Alex Thomsett o George Veterinary Group.

Bydd y pynciau ar gyfer pob sesiwn fel a ganlyn:

Sesiwn 1:	Gweithdrefnau Hwsmonaeth Cyffredinol · gan gynnwys ewthanasia, trimio traed, ysbaddu, hwsmonaeth · Trosolwg o'r diwydiant moch yng Nghymru
Sesiwn 2:	Maeth
Sesiwn 3:	O enedigaeth i ddiddyfnu
Sesiwn 4:	Clefyd Anadlol
Sesiwn 5:	Cylchred yr Hwch (1) – Yr Hesbinwch
Sesiwn 6:	Cylchred yr Hwch (2) – Yr Hwch
Sesiwn 7:	Crynodeb Cynllunio Iechyd · gan gynnwys brechlynnau, rhaglenni trin llyngyr · Rhaglen Cynllun Iechyd gyda chymhorthdal gan Menter Moch Cymru

Bydd y sesiwn gyntaf yn cael ei chynnal ar
Ddydd Mercher 23 Medi 2020
I ddechrau am 16.00

Bydd pob sesiwn yn para tuag awr gyda sesiwn holi ac ateb rhyngweithiol 15-30 munud ychwanegol ar y diwedd.

Uchafswm nifer y mynychwyr ar bob gweminar yw 12 i ganiatáu trafodaeth.

Nid yw'r dyddiadau ar gyfer sesiynau 2-7 wedi cael eu cadarnhau hyd yma rhag ofn bod amser neu ddiwrnod mwy cyfleus ar gyfer y siaradwr a mwyafrif y mynychwyr.

Mae'n rhaid cofrestru ymlaen llaw, a dylid gwneud hynny drwy e-bostio: mentermochcymru@menterabusnes.co.uk

Canolfan Milfeddygaeth Cymru
Wales Veterinary Science Centre

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Iechyd Da

GWASANAETHAU IECHYD ANIFEILIAID
ANIMAL HEALTH SERVICES

Ariennir y rhaglen gan Menter Moch Cymru drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - RhaglenDatblygu Gwledig ac felly fe'i cynigir AM DDIM i filfeddygon o bractisau yng Nghymru. Efallai y gofynnir i'r rhai sy'n bresennol wneud rhodd elusennol.